## Wales Office | Swyddfa Cymru

Cyflwynwyd y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer Sesiwn Gyntaf y Llywodraeth glymblaid gan Ei Mawrhydi y Frenhines ar 25 Mai 2010.

| **Mesurau a fydd yn berthnasol i Gymru** | |
|---|---|
| *Mesur **Cynllun Taliadau Equitable Life*** | Bydd y Mesur yn rhoi awdurdod statudol i Drysorlys EM dynnu gwariant i wneud taliadau i ddeiliaid polisi Equitable Life. |
| Mesur **yr Undeb Ewropeaidd** | Bydd y Mesur yn cynyddu rheolaeth ddemocrataidd a seneddol, ynghyd â chraffu ac atebolrwydd dros benderfyniadau'r Undeb Ewropeaidd. Rydym am i'r bobl a'u cynrychiolwyr gael mwy o lais. Mae arnom eisiau cynyddu atebolrwydd democrataidd yr Undeb Ewropeaidd. |
| *Mesur **Diwygio Ariannol*** | Bydd y Mesur yn rhoi'r cyfrifoldeb i Fanc Lloegr i reoli rheoliadau macroddarbodus a goruchwylio rheoliadau microddarbodus. |
| *Mesur **(Diddymu Mawr) Rhyddid*** | Bydd y Mesur yn adfer rhyddid a hawliau sifil ac yn adfer cydbwysedd yn y berthynas rhwng y dinesydd a'r wladwriaeth. |
| *Mesur **Dogfennau Adnabod*** | Bydd y Mesur yn diddymu cardiau adnabod ac yn dileu'r Gofrestr Hunaniaeth Genedlaethol sy'n cynnwys data personol a gasglwyd er mwyn cyhoeddi'r cardiau. |

| | |
|---|---|
| *Mesur* ***Cyfraniadau Yswiriant Gwladol*** | Mae'r Mesur yn cynyddu cyfraddau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol o fis Ebrill 2011 ymlaen er mwyn diogelu swyddi a chefnogi'r economi. |
| *Mesur* ***Swyddfa â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb*** | Bydd y Mesur yn darparu sylfaen statudol i'r Swyddfa â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb. |
| *Mesur* ***Diwygio'r Senedd*** | Mae'r Mesur yn rhoi mwy o lais i'r cyhoedd o ran sut y'u cynrychiolir yn y Senedd, yn gwella enw'r Senedd a rhoi mwy o reolaeth seneddol dros y Llywodraeth. |
| *Mesur* ***Pensiynau a Chynilion*** | Bydd y Mesur yn rhoi ar waith ganfyddiadau'r adolygiad o'r amserlen bresennol ar gyfer cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth os daw'r adolygiad i'r casgliad nad yw'r amserlen yn briodol bellach. |
| *Mesur* ***Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol*** | Bydd y Mesur yn gwneud gwasanaeth yr heddlu'n fwy atebol i bobl leol, yn creu Heddlu Ffiniau arbennig ac yn sefydlu mesurau i fynd i'r afael â thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| *Mesur* ***Gwasanaethau Post*** | Byddai'r Mesur yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sydd wedi wynebu'r Post Brenhinol ers tro. Byddai'r Mesur yn caniatáu cyfraniadau cyfalaf preifat, ynghyd â mesurau eraill, i gynorthwyo'r Post Brenhinol a sicrhau'r ddarpariaeth gwasanaeth post sylfaenol. |
| *Mesur* ***Diwygio Cyrff Cyhoeddus*** | Bydd y Mesur yn sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd ar gyfer pob Corff Cyhoeddus ('cwangos'); gan roi pwerau i Weinidogion ddiddymu, cyfuno neu drosglwyddo swyddogaethau. |
| *Mesur* ***Diwygio Lles*** | Diwygio i symleiddio'r system fudd-daliadau er mwyn gwella cymhelliant i weithio. |
| **Mesurau lle gall rhai darpariaethau fod yn berthnasol i Gymru**<br>Mae'r Mesurau isod yn delio â meysydd sydd wedi'u datganoli'n llwyr neu'n rhannol. Gall nifer cyfyngedig o ddarpariaethau ym mhob Mesur fod yn berthnasol i Gymru, a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar gwmpas a chynnwys pob Mesur i ddarganfod pa mor berthnasol yw pob un i Gymru. | |

| | |
|---|---|
| *Mesur* ***Datganoli a Lleoleiddio*** | Datganoli mwy o bwerau i gynghorau a chymdogaethau a rhoi'r grym i gymunedau lleol allu gwneud penderfyniadau am dai a materion cynllunio. |
| *Mesur* ***Addysg a Phlant*** | Bydd y Mesur Addysg a Phlant yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol a rhoi mwy o bwerau i rieni a disgyblion ddewis ysgol dda. Bydd yn sicrhau safonau uchel o ran disgyblaeth yn yr ystafell ddosbarth, safonau cadarn a'r dysgu o'r ansawdd gorau. |
| *Mesur* ***Ynni*** | Bydd y Mesur yn cyflwyno rhaglen genedlaethol o fesurau effeithlonrwydd ynni i gartrefi a busnesau. Bydd y Mesur hefyd yn sefydlu fframwaith i sicrhau dyfodol gyda chyflenwadau ynni carbon isel diogel a chystadleuaeth deg yn y marchnadoedd ynni. |
| *Mesur* ***Iechyd*** | Nod y Mesur yw gweithredu bwriad y Llywodraeth i gael fframwaith cenedlaethol cynaliadwy a symlach ar gyfer y GIG; cefnogi GIG sy'n cael ei arwain gan gleifion ac sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau; cyflawni'r addewid i symleiddio cwangos; a chefnogi cynlluniau'r Llywodraeth o ran iechyd cyhoeddus. |
| **Mesurau a gaiff effaith gyfyngedig ar Gymru neu nad ydynt yn berthnasol i Gymru** | |
| *Mesur* ***Academïau*** | Bydd y Mesur yn caniatáu i fwy o ysgolion fod yn Academïau gan roi iddynt y rhyddid a'r hyblygrwydd sydd eu hangen arnynt i barhau i wella safonau. |
| *Mesur* ***Llywodraeth Leol*** | Bydd y Mesur yn diddymu gorchmynion newidiadau strwythurol i sefydlu Exeter a Norwich yn Gynghorau Unedol o 1 Ebrill 2010 ac yn atal gweithredu'r bwriad i gael awdurdod unedol yn Suffolk, mater sy'n disgwyl sylw. |
| *Mesur* ***Yr Alban*** | Bydd y Mesur yn gweithredu rhai o argymhellion Adroddiad Terfynol y Comisiwn ar Ddatganoli yn yr Alban (Comisiwn Calman). |